CYNGOR DOSBARTH WENDOVER
Tŷ'r Wylan, Heol y Gorllewin,
Wendover, BP4 9JX
www.wendover.gov.uk

# Adroddiad ymyriad sefydliad busnes bwyd/safle bwyd

**Manylion y busnes**

| | |
|---|---|
| Enw gweithredwr neu berchennog y busnes bwyd | Mr Luigi Benito |
| Enw Masnachu | Parlwr Pizza a Byrgyrs Papa |
| Cyfeiriadau'r Busnes/Cangen a'r Prif Swyddfa | 34 Stryd yr Eog, Fuclhester, LL52 5HI |
| Cyfeiriad cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Math o fusnes | Gwerthwr bwyd symudol |

**Manylion yr ymyriad**

| | |
|---|---|
| Dyddiad, amser a math o ymyriad (i'w nodi) | 6 Ebrill 2017 |
| O dan ba gyfraith bwyd benodol y cynhaliwyd yr ymyriad? | Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Cymru) 2013<br>Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 |
| Ardaloedd a arolygwyd/archwiliwyd (i'w nodi) | Fan (yn Wendofest) |
| Enw(au) y person(pobl) a welwyd a/neu a gyfwelwyd | Antonio Benito |
| Dogfennau a/neu gofnodion eraill a archwiliwyd (i'w nodi) | Pecyn Bwyd mwy Diogel Busnes Gwell |
| Samplau a gymerwyd (i'w nodi) | Ddim yn berthnasol |
| Prif bwyntiau a drafodwyd yn ystod yr ymweliad (i'w nodi) | **1.** Tystiolaeth o lanhau a diheintio gwael yn yr ardal baratoi, yn groes i Reoliad (CE) 852/2005, Erthygl 4. Atodiad II, Pennod III, paragraffau 1, 2(c)<br>**a.** Roedd saim a baw wedi cronni ar yr arwyneb gwaith ar waelod y pren heb ei drin wrth y popty pizza.<br>**b.** Roedd baw ar y soced drydan wrth y popty pizza.<br><br>**2.** Nid oedd arwynebau mewn cysylltiad â bwyd mewn cyflwr derbyniol, yn groes i Reoliad (CE) 852/2005, Erthygl 4. Atodiad II, Pennod III, para 2(b). Roedd darn o bren heb ei drin wrth y popty pizza ar yr arwyneb paratoi bwyd a oedd mewn cyflwr |

| | |
|---|---|
| | gwael ac roedd baw a saim arno.<br><br>**3.** Nid yw offer sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â bwyd yn cael ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol, yn groes i Reoliad (CE) 852/2005, Erthygl 4. Atodiad II, Pennod V, para 1 (a). Nid oedd y prôb bwyd yn cael ei ddiheintio, ac nid oedd y clytiau a oedd ar gael yn rhai diheintio. Roeddent hefyd wedi mynd heibio'r dyddiad 'dod i ben'.<br><br>**4.** Nid oedd bwyd yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw groeshalogiad, yn groes i Reoliad (CE) 852/2004, Erthygl 4. Atodiad II, Pennod IX, para 3. Gwelwyd ffon bren mewn bwced a oedd yn cynnwys sglodion. |
| Camau gweithredu i'w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd (i'w nodi) | Fel yr esboniwyd, caiff y materion hyn eu cyfeirio at Gyngor Fulchester, gan gynnwys y sgôr rwyf wedi'i hasesu isod, gan mai Cyngor Fulchester sy'n gyfrifol am roi'ch sgôr i chi ac am wneud unrhyw newidiadau iddi. |

**Camau gweithredu i'w blaenoriaethu/gwelliannau angenrheidiol**

**Noder** – Nodir camau gweithredu gofynnol er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chamau sy'n berthnasol i argymhellion arfer da ar wahân.

| | |
|---|---|
| Cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | Sicrhau bod y prôb tymheredd yn cael ei lanhau a'i ddiheintio ar ôl ei ddefnyddio.<br>Amnewid y ffon bren gyda theclyn cegin addas. |
| Cydymffurfiaeth â gofynion strwythurol | Glanhau'r arwyneb gwaith a'r soced wrth y popty pizza yn drylwyr.<br>Tynnu/amnewid y bwrdd pren heb ei drin er mwyn darparu arwyneb diogel y gellir ei lanhau yn hawdd. |
| Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli | |

**Sgôr hylendid bwyd**

| **Meini prawf a gafodd eu hasesu** | **Sgôr ymyriad** |
|---|---|
| Lefel gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | 10 |
| Cydymffurfiaeth â gofynion strwythurol | 10 |
| Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli | 10 |
| **Sgôr hylendid bwyd** | 3 |

Nodiadau i weithredwr y busnes bwyd

- Os ydych o'r farn bod y sgôr a roddwyd yn anghyfiawn, gallwch ei hapelio â swyddog bwyd arweiniol yr awdurdod lleol, neu yn ei absenoldeb, y dirprwy swyddog.
- Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun, gan gynnwys ffurflenni templed ar gyfer apelio, cyflwyno 'hawl i ymateb' neu gyflwyno cais am ailarolygiad at bwrpas ailsgorio ar gael ar wefan y Cyngor neu drwy food.gov.uk/sgoriau. Caiff copïau papur eu darparu ar gais.
- Caiff sgoriau o 5 eu cyhoeddi ar food.gov.uk/sgoriau y tro nesaf i'r Cyngor lanlwytho data, sydd fel arfer o fewn 14 diwrnod.
- Caiff sgoriau is na 5 eu cyhoeddi ar food.gov.uk/sgoriau ar ôl i'r cyfnod hysbysu (10 diwrnod) a'r cyfnod apelio (21 diwrnod) ddod i ben, a hynny fel arfer o fewn 31 diwnod.

**Manylion y swyddog a gynhaliodd yr arolygiad a'r awdurdod lleol**

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | Josh King |
| Enw mewn llythrennau bras | JOSH KING |
| Rôl y swyddog arolygu | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| Manylion cyswllt y swyddog arolygu | 01346 894355 Josh.king@wendover.gov.uk |
| Manylion cyswllt uwch swyddog mewn achos o herio | Helen Swift<br>01346 894300<br>Helen.swift@wendovder.gov.uk |
| Dyddiad | 06/04/2017 |

Taflen Sgôr Risg Safle Bwyd
Enw’r Safle: Parlwr Pizza a Byrgyrs Papa
Gweithredwr y Busnes Bwyd: Luigi Benito
Cyfeiriad: 34 Stryd yr Eog, Fulchester Dyddiad: 6.4.2017

| | **Sgôr (Rhowch gylch)** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| **Perygl Posibl** | | |
| Math o fwyd a'r dull o'i drin | 40 (30) 10 5 | |
| Dull prosesu | 20 (0) | |
| Defnyddwyr mewn perygl | 15 10 (5) 0 | |
| Sgôr ychwanegol | 22 (0) | |
| | | |
| **Lefel Gydymffurfiaeth** | | |
| Hylendid | 25 20 15 (10) 5 0 | Ddim yn glanhau/diheintio'r prôb. Defnyddio ffon bren i droi sglodion. |
| Strwythur | 25 20 15 (10) 5 0 | Pren heb ei orchuddio a glanhau gwael lle mae'r arwyneb paratoi. |
| | | |
| **Hyder mewn Rheolwyr/ gweithdrefnau rheoli** | 30 20 (10) 5 0 | |
| Risg sylweddol | 20 (0) | |
| **Cyfanswm sgôr** | | **60** |
| **Categori** | | **C** |
| **CSHB** | **Cyfanswm sgôr** | **30** |
| | **Sgôr waethaf** | **10** |
| | **Sgôr CSHB** | **3** |